**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mabon ap Gwynfor AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

5 Gorffennaf 2023

Annwyl Mabon,

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 3 Mai, roedd gennych ymholiad ynglŷn â’r ddarpariaeth ar gyfer asesu niwrowahaniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Gogledd. Gan fod polisi niwrowahaniaeth yn perthyn i’m portffolio i, hoffwn i ymateb.

Rwy'n rhannu eich pryderon ynghylch yr angen i sicrhau yr asesir niwrowahaniaeth ym mamiaith yr unigolyn, yn ei ddewis iaith. Yn yr adolygiad o wasanaethau niwroddatblygiadol a gynhaliwyd y llynedd, roedd hwn yn un o'r materion a nodwyd. Canfu'r adolygiad, gan ystyried y diffygion o safbwynt sgiliau Cymraeg, fod y rhan fwyaf o wasanaethau niwrowhaniaeth yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd darparu’r 'cynnig rhagweithiol' o ddarpariaeth Gymraeg.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn esbonio bod materion ehangach na dim ond y gallu i asesu niwrowahaniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a'r gallu i gyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn y ddwy iaith. Mae angen addasu'r asesiadau eu hunain i fodloni’r profiadau diwylliannol sy’n benodol i siaradwyr Cymraeg. Mae'r materion cyfathrebu sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth yn golygu bod angen i'r clinigydd feddu ar sgiliau iaith da iawn ynghyd ag ymwybyddiaeth ddiwylliannol (e.e. y gallu i ddarllen iaith y corff) dda iawn. Nid mater syml o ddarparu gwersi Cymraeg i staff yw hwn felly.

Drwy ein Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth, rydym am ddeall beth yn union yw’r sefyllfa ar draws Cymru ac rydym yn ymgymryd â'r gwaith canlynol:

- Rydym wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys edrych ar sut y mae byrddau iechyd lleol yn bodloni gofynion y Cod ac, os oes dyletswydd (gan gynnwys mewn perthynas â’r ddarpariaeth Gymraeg) nad yw'n cael ei chyflawni, beth yw'r materion sy'n atal y byrddau iechyd rhag ei chyflawni a sut y gellir eu goresgyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Rydym wedi comisiynu Uned Gyflawni'r GIG i weithio gyda byrddau iechyd lleol i ddarganfod faint o asesu niwrowahaniaeth sy’n cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.
- Rydym wedi datblygu holiadur yn gofyn am farn am y dysgu a’r datblygu ar gyfer staff sy'n gweithio ym maes niwrowahaniaeth. Bydd yr holiadur hwn hefyd yn ein helpu i ddeall faint o siaradwyr Cymraeg sy’n gweithio yn y maes hwn a pha mor hyderus ydynt i ddefnyddio'r iaith wrth eu gwaith.
- Rwyf wedi sicrhau bod £12m arall ar gael i gefnogi'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol o 2022 i 2025. Mae £1.4m eisoes wedi'i ddarparu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi’r gwasanaethau presennol a’u gwella. Mae £4.5m ar gael yn y flwyddyn ariannol hon a £6m yn y flwyddyn ganlynol.
- Rydym yn gweithio ar sail profiad Prifysgol Bangor sy'n sefydlu asesiadau Cymraeg ar gyfer dementia, i yrru ein gwaith ninnau yn ei flaen.
- Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda ThinkSmartbox ac Ysbyty Rookwood i sicrhau bod pecynnau cyfathrebu Cymraeg ar gael ledled Cymru ar gyfer unigolion niwrowahanol nad ydynt yn defnyddio geiriau wrth gyfathrebu.

Mae'r fenter Mwy na Geiriau yn cefnogi’r Gwaith o weithredu’r safonau. Mae’r fenter hon wedi'i gosod yn y cyd-destun bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd ac y dylid ei hymgorffori mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru er mwyn i unigolion dderbyn gofal sy’n diwallu eu hanghenion iaith heb ofyn am hynny (mae hyn yn cael ei alw yn Gynnig Rhagweithiol). Cynllun hirdymor sy'n ceisio cryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg yw Mwy na Geiriau. Mae cefnogi sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu’r dyfodol, a meithrin y sgiliau hynny, yn un o thema allweddol y cynllun Mwy na Geiriau newydd.

Rwyf am eich sicrhau ein bod yn gweithio'n galed i gyflawni gwasanaethau niwrowahaniaeth gwell i bawb. Mae iaith a gofal yn mynd law yn llaw ac rydym am sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael triniaeth a gofal sy’n ddiogel, a’u bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch.

Yn gywir



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services